**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A44 (RHWNG BWLCH NANT YR ARIAN A PHONTERWYD, CEREDIGION) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2023**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A44, neu gerllaw iddi, rhwng Bwlch Nant yr Arian a Phonterwyd yn Sir Ceredigion.

Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd dros dro bob cerbyd rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A44 sy'n ymestyn o bwynt 190 o fetrau i'r gorllewin o fynedfa Canolfan Ymwelwyr Bwlch Nant yr Arian hyd at bwynt 400 metr i'r gogledd-orllewin o 'Red Kite Café' ger Ponterwyd, Ceredigion.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gorllewin o ben dwyreiniol y darn o'r ffordd sydd ar gau fydd mynd ar yr A44 tua'r dwyrain i ymuno â'r A4120 ym Mhonterwyd, trwy Bontarfynach i Gylchfan Southgate, Aberystwyth, ac yna ar hyd Heol y Bont tua'r gogledd i Lanbadarn Fawr i ailymuno â'r A44 tua'r dwyrain ym mhen gorllewinol y darn o'r ffordd sydd ar gau. I'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r dwyrain o ben gorllewinol y darn o'r ffordd sydd ar gau.

Disgwylir y bydd y gwaharddiad yn weithredol dros nos (rhwng 19:00 o'r gloch a 06:00 o'r gloch) rhwng 25 Medi 2023 a 10 Tachwedd 2023, neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod yr amseroedd a'r dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A44 TRUNK ROAD (BETWEEN BWLCH NANT YR ARIAN AND PONTERWYD, CEREDIGION) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2023**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A44 trunk road between Bwlch Nant yr Arian and Ponterwyd in the County of Ceredigion.

The effect of the Order will be to temporarily prohibit all vehicles from proceeding on the length of the A44 trunk road that extends from a point 190 metres west of the Bwlch Nant yr Arian Visitor Centre access to a point 400 metres north west of the 'Red Kite Café' near Ponterwyd, Ceredigion.

The alternative route for westbound vehicles from the eastern extent of the closure will be via the eastbound A44 to join the A4120 at Ponterwyd, through Devil's Bridge to Southgate Roundabout, Aberystwyth, and then northbound along Heol y Bont to Llanbadarn Fawr to re-join the eastbound A44 at the western extent of the closure. Vice versa for eastbound traffic from the western extent of the closure.

It is expected that the prohibition will operate overnight (19:00 hours to 06:00 hours) from 25 September 2023 until 10 November 2023 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the times and dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months as a contingency should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government